# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD MERCHER, 16 MEHEFIN 2021

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr : Annwen Hughes (Cadeirydd), John Brynmor Hughes a Dafydd Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Paul a Deborah Peutrill a Dr Pamela Smith – preswylwyr lleol ar gais Canolfan y Fron, Llandwrog, Caernarfon

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Canolfan y Fron, Llandwrog, Caernarfon**

**Ar ran yr eiddo:**

Mike Elsden (ymgeisydd)
Eiriona Williams (cynrychiolydd yr ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:**

**Preswylwyr Cyfagos:**

Edward Willcox
Jim Embrey

Aelod Lleol: Cynghorydd Dilwyn Lloyd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Canolfan y Fron, Llandwrog, Caernarfon. Gwnaed y cais mewn perthynas â dangos ffilmiau, dramâu, chwaraeon o dan do, paffio neu adloniant ymgodymu, cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthu alcohol.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sawl gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan breswylwyr cyfagos a Chymdeithas Preswylwyr y Fron oedd yn cynnwys deiseb wedi ei arwyddo gan 36 o breswylwyr yn nodi amodau ac amseroedd derbyniol. Nid oedd sylwadau na gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tan.

Roedd y gwrthwynebiadau yn cyfeirio at bob un o'r amcanion trwyddedu. Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, niwsans cyhoeddus, materion glanweithiol, parcio a throsedd ac anrhefn. Nodwyd hefyd nad oedd Pwyllgor y Ganolfan wedi ceisio ymgynghoriad cyhoeddus o flaen llaw, a bod oriau arfaethedig yr ymgeisydd yn codi pryder.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn ystyried pryderon y preswylwyr cyfagos ac yn cymeradwyo'r cais yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Ni fydd adloniant yn cael ei gynnal tu allan ar ôl 22:00
- Ni fydd alcohol yn cael ei werthu o'r siop ar ôl 21:00
- Ni fydd alcohol yn cael ei werthu o'r bwyty ar ôl 21:00
- Oriau arferol yw 8:30 – 17:30
- Gobaith yw cynnal digwyddiadau ac felly'r angen yn codi am estyniad mewn oriau. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd oherwydd nad oes ceisiadau am ddigwyddiad wedi ei dderbyn
- Bwriad gohebu gyda'r gymuned leol pan gyflwyni'r cais am ddigwyddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â niferoedd staff nodwyd mai gwirfoddolwyr rhan amser sydd yn staffio'r siop gyda chogydd a thri arall yn helpu yn y bwyty. Cadarnhawyd bod y Cogydd sydd a'i enw ar y drwydded bresennol wedi ymddiswyddo a bod Cogydd newydd wedi ei phenodi. Ategwyd bod y Cogydd newydd wedi llwyddo gyda chais am drwydded bersonol ac yn barod i dderbyn y

cyfrifoldeb. Nodwyd bod angen sicrhau na fydd alcohol yn cael ei werthu hyd nes bydd y Cogydd presennol wedi derbyn y drwydded.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Jim Embrey:
- Bod trwydded 'addas' yn dderbyniol
- Bod Y Fron yn ardal anghysbell a thawel gydag oddeutu 300 o drigolion yn byw yno
- Yr oriau agor arfaethedig yn eithafol i'r gymuned leol
- Bod trigolion lleol wedi cyfarfod ac wedi cytuno i estyniad oriau cyfyngedig - ychydig o nosweithiau hwyr yn dderbyniol

Edward Willcox
- Rhyfeddu pam bod Canolfan y Fron heb ofyn am farn y gymuned cyn cyflwyno cais
- Angen ystyried effaith gwerthu alcohol ar deuluoedd sydd yn byw yn lleol
- Bod angen gofalu bod y drwydded yn cael ei gweithredu yn gywir

Aelod Lleol – Cynghorydd Dilwyn Lloyd
- Pryderon mwyaf yw sŵn ar ôl 23:00
- Bod byngalos yr henoed drws nesaf i'r ganolfan
- Y Fron yn bentref bach cysglyd
- Parcio wedi ei amlygu fel pryder
- Awgrym gosod amod i gau am 22:30 i fodloni pobl leol
- Dim gwrthwynebiad ond pwysig rhannu sylwadau a mynegi sylwadau

Cyfeiriwyd at y sylwadau eraill a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:
- Er bod y cais yn nodi 8:30 – 23:30, ar gyfer digwyddiadau arbennig yn unig fydd hyn. Bydd y bwyty yn cau am 21:00 fel arall.
- Awgrymwyd mai achlysurol yn unig fyddai'r digwyddiadau
- Bydd y Ganolfan yn cysylltu gyda'r gymuned cyn cytuno cynnal digwyddiad

Ategodd y Rheolwr Cynllunio bod yr oriau a gyflwynwyd gyda'r cais yn rhoi hyblygrwydd i'r drwydded ac mai hanfod y cais oedd 'bwriad achlysurol'.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd, yr ymgynghorwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb ac adroddiad y Swyddog Trwyddedu. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cygnor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn

ii. Atal niwsans cyhoeddus

iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus

iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais**

**Rhoddwyd trwydded fel a ganlyn:**

**1. Oriau agor**

- **Amserau safonol: Sul-Sadwrn 08:30-23:00**
- **Awr derfynol 00:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan**
- **Awr derfynol 01:00 ar Noswyl Calan**

**2. Dramâu**

- **Tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00**
- **Tu allan: Sul-Sadwrn 08:30-22:00**

**3. Ffilmiau tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00**
**4. Chwaraeon tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00**
**5. Paffio neu wreslo tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00**

**6. Cerddoriaeth fyw**

- **Tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00 (gydag awr derfynol 00:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan, ac awr derfynol 01:00 ar Noswyl Calan)**
- **Tu allan: Sul-Sadwrn 08:30-22:00 (gydag awr derfynol 23:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig, Dydd San Steffan a Noswyl Calan)**

**7. Cerddoriaeth wedi recordio**

- **Tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00 (gydag awr derfynol 00:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan, ac awr derfynol 01:00 ar Noswyl Calan)**
- **Tu allan: Sul-Sadwrn 08:30-22:00 (gydag awr derfynol 23:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig, Dydd San Steffan a Noswyl Calan)**

**8. Perfformiadau dawns**

- **Tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00**
- **Tu allan: Sul-Sadwrn 08:30-22:00**

**9. Un rhywbeth o ddisgrifiad tebyg i gerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi recordio neu berfformiadau dawns**

- **Tu mewn: Sul-Sadwrn 08:30-23:00 (gydag awr derfynol 00:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan, ac awr derfynol 01:00 ar Noswyl Calan)**
- **Tu allan: Sul-Sadwrn 08:30-22:00 (gydag awr derfynol 23:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig, Dydd San Steffan a Noswyl Calan)**

**10. Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo**

- **Amserau safonol: Sul-Sadwrn 08:30-21:00**
- **Amserau pan fo digwyddiad preifat: Sul-Sadwrn siop 08:30-21:00, caffi - bar 08:30-23:00**

- **Awr derfynol 00:00 yn y caffi - bar ar Benwythnosau Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan**
- **Awr derfynol 01:00 yn y caffi - bar ar Noswyl Calan**

**11. At ddibenion yr amodau hyn, diffinnir Penwythnosau Gŵyl Banc fel cyfnod yn cychwyn ar ddydd Gwener ac yn gorffen ar y dydd Llun canlynol pan fo diwrnod o fewn y cyfnod hwnnw yn ŵyl banc.**

**12. Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu e.e. dadleuon nad oes angen eiddo trwyddedig ar yr oriau y gofynnwyd amdanynt neu o gwbl, neu ddiffyg caniatâd cynllunio perthnasol. Nid yw'r materion hyn yn ystyriaethau ceisiadau trwydded eiddo.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd sylwadau gan breswylwyr Y Fron yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at y pedwar amcan trwyddedu. Yn gryno, mynegwyd pryderon y byddai caniatau'r drwydded yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu, anhrefn, sŵn, materion glanweithiol a phroblemau parcio. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau gan gynrychiolydd yr ymgeisydd yn nodi bwriad cyfyngu rhai agweddau o'r hyn y gofynnwyd amdanynt yn y cais ac o ganlyniad bu i'r Is-bwyllgor drin y rhain fel diwygiadau. Er sylw, ni chyflwynwyd gwrthwynebiadau gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tan ac Achub, Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor nac Adran Priffyrdd y Cyngor.

Amlygodd yr Is-bwyllgor eu bod yn derbyn bod rhai o'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r cais yn rhai diffuant. Fodd bynnag, nid oedd yr Is bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth ddigonol wedi dod i law i brofi bod y problemau hyn yn debygol pe byddai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, ac y byddai'n groes i'r amcanion trwyddedu.

Amlygwyd pryder y byddai cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r honiad tu hwnt i honiadau cyffredinol am yfed y gellid eu priodoli i unrhyw eiddo trwyddedig. Ni chyflwynwyd rhesymau na thystiolaeth pam y byddai'r eiddo penodol yma yn debygol o achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ymddengys bod y sylwadau wedi cael eu cyflwyno ar sail dyfalu ac nid tystiolaeth - nid yw hyn yn sail gyfreithiol i wneud penderfyniad - yn ôl yr Uchel Lys yn R (on the application of Daniel Thwaites Plc) v Wirral Corough Magistrates Court [2008] EWHC 838 (Admin).

Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan yr Heddlu. Ystyriwyd be fyddai problemau troseddu tebygol yn codi, byddai'r Heddlu wedi amlygu hyn. O dan yr amgylchiadau, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai rhoi'r drwydded yn tanseilio'r amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Yng nghyd-destun pryderon sbwriel a sŵn pe caniateir y drwydded, ystyriwyd y sylwadau fel pryderon cyffredinol yn seiliedig eto ar ddyfalu heb gyflwyno tystiolaeth gadarn. Ni dderbyniwyd sylwadau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd yn adrodd y byddai rhoi'r drwydded yn debygol o achosi problem sŵn - byddai sylwadau o'r fath wedi dod i'r amlwg petai problemau sŵn tebygol. Gwrthododd

yr Is-bwyllgor yr honiad bod cyfyngu oriau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Sŵn 1996. Gyda diffyg tystiolaeth, doedd dim sail i'r Is-bwyllgor ddod i gasgliad y byddai caniatáu'r drwydded yn achosi problemau o ran tanseilio'r amcan niwsans cyhoeddus.

Yng nghyd-destun pryderon diogelwch ffordd a diffyg gofod parcio gyda mynediad i gerbydau'r gwasanaethau brys yn cael eu heffeithio, derbyniwyd y pryderon mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch cyhoeddus. Fodd bynnag, ystyriwyd y pryderon eto fel rhai yn seiliedig ar ddyfalu yn hytrach na thystiolaeth. Nid oedd yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, unrhyw wasanaeth brys arall na'r Adran Priffyrdd wedi mynegi unrhyw bryder o safbwynt diogelwch y ffordd. Disgwylid y byddai sylwadau gan yr asiantaethau swyddogol yn amlygu hyn petai risg i ddiogelwch y cyhoedd yn bodoli. Yn wyneb y diffyg tystiolaeth a diffyg sylwadau oddi wrth arbenigwyr yn y maes, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai caniatáu'r cais yn debygol o danseilio'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Roedd y pryderon am ddiogelwch plant yn rhai cyffredinol a oedd eto yn seiliedig ar ddyfalu heb ddim tystiolaeth gadarn i gefnogi'r honiad. Nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y cais yn tanseilio'r amcan o warchod plant rhag niwed.

Dygwyd sylw'r Is-bwyllgor fod deiseb wedi ei chyflwyno yn gwrthwynebu'r cais. Er y darparwyd copi i'r Is-bwyllgor, daethpwyd i'r casgliad nad oedd y ddeiseb yn dderbyniol fel tystiolaeth. Nid yw'r nifer sydd yn gwrthwynebu cais ynddo'i hun yn brawf bod un neu fwy o'r amcanion trwyddedu yn debygol o gael eu tanseilio.

Tra bo'r Is-bwyllgor yn fodlon bod pryderon teilwng wedi eu codi, roedd hefyd yn siomedig gweld bod y pryderon hyn wedi eu llygru i raddau gan 'wleidyddiaeth bentrefol' o amgylch yr eiddo. O ganlyniad, byddai'r Is-bwyllgor yn llwyr annog i'r ymgeisydd a phob parti i'r cais hwn gynnal deialog adeiladol gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw faterion all godi neu beidio gyda'r eiddo yn y dyfodol.

Tra bo'r Is-bwyllgor yn deall a derbyn pryderon trigolion ar y cais, rhaid gwneud penderfyniad ar sail gyfreithlon ac ar dystiolaeth gadarn sydd yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais diwygiedig yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

### 2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO Y CROCHAN, 9 – 11 STRYD TWLL YN Y WAL, CAERNARFON

**Ar ran yr eiddo:**

Dewi Jones a Chris Summers - ymgeiswyr

**Eraill a wahoddwyd:**

**Preswylwyr Cyfagos**:

Rita Geary
Mandy Matthews

Aelod Lleol: Cynghorydd Cai Larsen

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Y Crochan, 9 – 11 Stryd Twll yn y Wal, Caernarfon. Gwnaed y cais mewn perthynas a gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau wedi ei derbyn gan breswylwyr cyfagos yn cyfeirio at ddau o'r amcanion trwyddedu. Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, niwsans cyhoeddus a bod byrddau y busnes yn rhwystr i'r preswylwyr.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeiswyr:

- Nad oeddynt wedi bod yn gwerthu alcohol yn anghyfreithlon - eu bod wedi cyflwyno a derbyn rhybuddion digwyddiad dros-dro
- Bydd byrddau yn cael eu gosod tu allan ar un ochr o'r stryd yn unig
- Bod rheoliadau diogelwch tan yn unol â rheoliadau covid

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â deilydd y drwydded, amlygodd Mr Dewi Jones ei fod bellach wedi derbyn trwydded bersonol. Cadarnhawyd hefyd nad oedd grisiau dihangfa dân allan o'r llawr cyntaf na'r ail - grisiau mewnol yn unig gyda drysau yn agor i'r ffrynt ac i'r cefn.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Rita Geary (Mandy Mathews yn cyflwyno sylwadau ar ran Rita Geary)

- Wedi byw ar y stryd ar hyd ei bywyd - pethau yn mynd yn anoddach ac yn creu poen meddwl
- Dim eisiau byw gyda sŵn
- Anodd i'r gwasanaethau brys gael mynediad i'r stryd ar ôl 16:00
- Gormod o fyrddau tu allan ar y stryd
- Byddai trwydded ychwanegol yn cynyddu problemau yn y stryd

Mandy Mathews

- Yn byw drws nesaf i'r eiddo - dim 2m rhwng ei drws ffrynt a'r byrddau
- Dim yn teimlo yn saff - llawer o sefydliadau tebyg yn y stryd
- Dim gwrthwynebiad i fenter newydd, ond y bwriad yn ychwanegu at problemau sydd eisoes yn bodoli
- Angen ystyried y preswylwyr
- Hawl parcio ar y stryd rhwng 16:00 a 11:30 sydd yn ddelfrydol ar gyfer oriau ei gwaith, ond anodd cael y car allan / mewn i'r stryd ar rai adegau oherwydd bod byrddau ar y stryd – hyn yn creu mwy o broblemau a phoen meddwl
- Lle bwyta yw'r bwriad, pam fod angen gwerthu alcohol?
- Ystyried cyfaddawd o 'dod â'ch alcohol eich hun'
- Angen osgoi yfed allan ar y stryd

Aelod Lleol: Y Cynghorydd Cai Larsen

- Bod yr ymgeiswyr wedi rhedeg Cynllun Porthi Pawb oedd yn llwyddiannus iawn yng Nghaernarfon yn ystod y cyfnod clo
- Ei fod yn cydymdeimlo gyda phryderon y preswylwyr cyfagos
- Bod y bwriad yn un o sefydlu bwyty safonol o gymharu â sefydliadau eraill ar y stryd ac felly yn denu cwsmer gwahanol
- Byddai caniatáu 'dod â'ch alcohol eich hun' 'yn debygol o arwain at fwy o yfed gyda phryniant cwrw rhatach
- Llai o reolaeth heb drwydded - bod disgyblaeth a chyfrifoldeb gan ddeilydd y drwydded i gadw trefn

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Byddai caniatáu pobl i 'ddod â'ch alcohol eich hun' yn creu mwy o broblemau - dim rheolaeth dros hyn
- Bwriad yw gweini'r bwrdd olaf am 20:30 felly dim yn rhagweld pobl yn aros ymlaen yn hwyrach na 22:00
- Ni fydd y bwyty yn cyfrannu at sŵn

Ategodd y Rheolwr Cynllunio bod yr ymgeiswyr wedi cyflwyno cais am rybudd digwyddiadau dros dro i werthu alcohol gyda llond llaw wedi eu caniatáu. Nid oedd unrhyw werthiant alcohol anghyfreithlon wedi digwydd ac ni dderbyniwyd cwynion yn ystod y cyfnod yma.

Ymneilltuodd yr ymgeiswyr, yr ymgynghorwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb ac adroddiad y Swyddog Trwyddedu. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

v. Atal trosedd ac anhrefn

vi. Atal niwsans cyhoeddus

vii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus

viii. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais**

**Rhoddwyd trwydded fel a ganlyn:**

1. **Oriau agor: Sul-Sadwrn 09:00-00:00**

2. **Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo: Sul-Sadwrn 09:00-23:30**

3. **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau. Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu e.e. dadleuon nad oes angen eiddo trwyddedig ar yr oriau y gofynnwyd amdanynt neu o gwbl, neu ddiffyg caniatâd cynllunio perthnasol. Nid yw'r materion hyn yn ystyriaethau ceisiadau trwydded eiddo.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus. Yn gryno, mynegwyd pryderon bod yr eiddo wedi bod yn gweini alcohol heb drwydded, byddai caniatáu trwydded yn debygol o arwain at gynnydd mewn sŵn a bod byrddau busnesau yn rhwystr i breswylwyr cyfagos. Er sylw, ni chyflwynwyd gwrthwynebiadau gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tan ac Achub, Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor nac Adran Priffyrdd y Cyngor.

Amlygodd yr Is-bwyllgor eu bod yn derbyn bod rhai o'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r cais yn rhai diffuant. Fodd bynnag, nid oedd yr Is bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth ddigonol wedi dod i law i brofi bod y problemau hyn yn debygol pe byddai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, ac y byddai'n groes i'r amcanion trwyddedu.

Amlygwyd pryder bod yr eiddo wedi bod yn gweini alcohol heb drwydded ac felly yn cwestiynu parodrwydd yr ymgeisydd i beidio â chyflawni'r drosedd hon yn y dyfodol. Ni chyflwynwyd manylion o ran dyddiadau, amser, nag amgylchiadau'r digwyddiadau honedig hyn a derbyniwyd cadarnhad gan yr ymgeiswyr a'r Rheolwr Trwyddedu bod rhybuddion digwyddiad dros-dro wedi eu cyflwyno mewn perthynas â nosweithiau diweddar yn yr eiddo. Gan dybio bod unrhyw drosedd wedi'i chyflawni, ni roddwyd esboniad sut y byddai caniatáu trwydded yn arwain at fwy o achosion o werthu alcohol heb drwydded pan fyddai bodolaeth trwydded yn lleihau'r tebygolrwydd o droseddu yn y lle cyntaf - oherwydd diffyg tystiolaeth, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai rhoi'r drwydded yn tanseilio'r amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Amlygwyd pryder y byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn

problemau sŵn. Er hynny, ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r honiad tu hwnt i honiadau cyffredinol y gellid eu priodoli i unrhyw eiddo trwyddedig cyfagos, ac ni eglurwyd pam y byddai'r eiddo hwn yn benodol yn debygol o achosi problem sŵn yn fyw nag eraill. Ymddengys bod y sylwadau wedi cael eu cyflwyno ar sail dyfalu ac nid tystiolaeth - nid yw hyn yn sail gyfreithiol i wneud penderfyniad - yn ôl yr Uchel Lys yn R (on the application of Daniel Thwaites Plc) v Wirral Corough Magistrates Court [2008] EWHC 838 (Admin).

Yng nghyd-destun gwrthwynebiad ar y sail y byddai byrddau sy'n perthyn i'r eiddo yn rhwystro mynediad ffordd, ni eglurwyd pam y byddai'r eiddo yma yn benodol yn debygol o achosi problem mynediad yn waeth nag eiddo trwyddedig cyfagos sydd gyda byrddau ar y stryd. Nid oedd yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, unrhyw wasanaeth brys arall na'r Adran Priffyrdd wedi mynegi unrhyw bryder o safbwynt diogelwch y ffordd. Disgwylid y byddai sylwadau gan yr asiantaethau swyddogol yn amlygu hyn petai risg i ddiogelwch y cyhoedd yn bodoli. Yn wyneb y diffyg tystiolaeth a diffyg sylwadau oddi wrth arbenigwyr yn y maes, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai caniatáu'r cais yn debygol o danseilio'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Tra bo'r Is-bwyllgor yn deall a derbyn pryderon trigolion ar y cais, rhaid gwneud penderfyniad ar sail gyfreithlon ac ar dystiolaeth gadarn sydd yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais diwygiedig yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 4.20 y.h.

**CADEIRYDD**